**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter on 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID**
**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 20FED MEHEFIN, 2023 2.00 PM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Gellir mynychu'r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

## R H A G L E N

## 1 CYFLWYNIADAU

**Gwobrau**

Gwobrau Rhwydwaith Perfformiad 2023 Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE)
Mynwentydd ac Amlosgfeydd – Y perfformiwr sydd wedi gwella fwyaf

Gwobrau Partneriaethau 2023
Prosiect Addysg ac Addysg Uwch Gorau – Campws Mynydd Isa

## 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 TEYRNGEDAU I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD TONY SHARPS

Er mwyn caniatáu i'r Aelodau dalu teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Tony Sharps.

## 4 DATGAN CYSYLLTIAD

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

## 5 COFNODION (Tudalennau 5 - 30)

**Pwrpas:** Cadarnhau fel cofnod cywir o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2023, 4 Mai 2023 (10am) a 4 Mai (1pm).

## 6 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

## 7 DEISEBAU

**Pwrpas:** Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod i law, caiff deisebau eu pasio i'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

**PRIF EITEMAU BUSNES**

8 **CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28** (Tudalennau 31 - 108)

Adroddiad Prif Weithredwr -

Cymeradwyo dogfennau Rhan 1 a Rhan 2 Cynllun y Cyngor (2023-28) sy'n amlinellu'r camau gweithredu, y mesurau a'r risgiau sy'n tanategu blaenoriaethau, is-flaenoriaethau ac amcanion lles Cynllun y Cyngor (2023-28).

9 **MABWYSIADU IS-DDEDDFAU TYLLU'R CROEN** (Tudalennau 109 - 114)

Argymell mabwysiadu is-ddeddfau mewn perthynas â thyllu'r croen. Mae'r rhain yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, Rhan VIII, adrannau 14 a 17.

10 **ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE DRAFFT** (Tudalennau 115 - 202)

Adroddiad Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) -

I geisio cymeradwyaeth Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y Datganiad Polisi Gamblo Drafft 2023 – 2026

11 **CYNLLUN LLES BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT A WRECSAM 2023-28** (Tudalennau 203 - 238)

Adroddiad Prif Weithredwr

Rhannu'r Cynllun Lles pum mlynedd newydd ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor, fel aelod statudol o'r Bwrdd, ar gyfer y Cynllun newydd, gan gynnwys yr amcanion lles a'r camau nesaf mae'r Cyngor yn ymrwymo i'w cymryd i'w bodloni ar y cyd â'i sefydliadau partner ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

12 **RHYBUDD O GYNNIG** (Tudalennau 239 - 240)

**Pwrpas:** Mae'r item hon i dderbyn unrhyw Rhybuddion o Gynnig: mae un wedi cael ei dderbyn ac wedi ei atodi i'r rhaglen.

**ER GWYBODAETH**

## 13 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

**Pwrpas:** Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: doedd dim wedi dod I law erbyn y dyddiad cau.

## 14 **CWESTIYNAU**

**Pwrpas:** Nodi’r atebion I unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol a Rheol Sefydlog 9.4(a) y Cyngor Sir: doedd dim wedi dod I law erbyn y dyddiad cau.

.

## 15 **CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU**

Ystyried unrhyw faterion a godwyd gan yr Aelodau o Gofnodion cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill, ynghyd ag unrhyw gwestiynau a godwyd dan Adran 4.20 Cyfansoddiad y Cyngor. Os bydd angen, mae’n bosib cael gafael ar gopïau o Gofnodion yr amrywiol gyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod arferol diwethaf y Cyngor, sydd wedi’u cymeradwyo a’u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, drwy fynd i’r Adran Pwyllgorau a Gwasanaethau’r Aelodau.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw’r cyfarfod yn para’n hirach na dwy awr.***